# Ymgynghoriad ar ddeuddeg cais am ychwanegion bwyd anifeiliaid i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 25 Mai 2023
Dyddiad cau: 20 Gorffennaf 2023

## Crynodeb o ymatebion

PDF
Gweld Consultation on applications for thirteen feed additive authorisations for use in animal feed: Summary of stakeholder responses as PDF(Open in a new window) (299.53 KB)

## I bwy bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

- Gwneuthurwyr, mewnforwyr/allforwyr a manwerthwyr bwyd anifeiliaid
- Pob prynwr bwyd anifeiliaid, gan gynnwys ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ac anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd
- Cyrff masnach sy'n cynrychioli rhanddeiliaid mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, amaethyddiaeth a'r amgylchedd
- Undebau llafur sy'n cynrychioli rhanddeiliaid yn y diwydiant ffermio
- Sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr mewn cadwyni bwyd a chadwyni bwyd anifeiliaid
- Awdurdodau Gorfodi

Mae rhestr o bartïon sydd â buddiant wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

## Pwnc yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â deuddeg o geisiadau am ychwanegion bwyd sydd wedi'u cyflwyno i'w hawdurdodi ym Mhrydain Fawr. O dan y trefniadau gweithredu presennol ar gyfer Gogledd Iwerddon, bydd busnesau sy'n ceisio awdurdodiad newydd ar gyfer rhoi cynnyrch bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig ar farchnad Gogledd Iwerddon yn parhau i ddilyn rheolau'r UE.

Yn ogystal â'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cyhoeddi dogfen ar y cyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban, yn cynnwys safbwyntiau ac asesiadau diogelwch ar gyfer y ceisiadau.

- Safbwyntiau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alan ar ddeuddeg cais am ychwanegion bwyd i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid
- Asesiadau diogelwch yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban ar ddeuddeg cais am ychwanegion bwyd i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid

## Diben yr ymgynghoriad

Mae’r ymgynghoriad hwn yn rhoi’r cyfle i randdeiliaid leisio eu barn, er mwyn hysbysu Gweinidogion Cymru a Lloegr (gan roi gwybod i Weinidogion yng Ngogledd Iwerddon), cyn iddynt wneud penderfyniad ar awdurdodi’r ychwanegion bwyd anifeiliaid sydd wedi’u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

Rydym yn ceisio adborth ar y telerau awdurdodi arfaethedig, ein hasesiad o’r effeithiau posibl a nodir yn y pecyn ymgynghori, ac unrhyw dystiolaeth bellach a allai fod gennych ar effeithiau ychwanegol y dylem eu hystyried.

Bydd ymgynghoriad cyfochrog yn cael ei gyhoeddi gan Safonau Bwyd yr Alban.

## Pecyn ymgynghori

Mae’r pecyn ymgynghori hwn yn darparu’r wybodaeth gefndirol a’r manylion y bydd angen i chi eu gwybod er mwyn ymateb i’r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn. Mae’r ddogfen ymgynghori lawn ar gael ar y tudalennau canlynol hefyd.

Ymgynghoriad ar ddeuddeg cais am ychwanegion bwyd anifeiliaid i’w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid (fersiwn hygyrch)

PDF
Gweld Ymgynghoriad ar ddeuddeg cais am ychwanegion bwyd anifeiliaid i’w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid as PDF(Open in a new window) (393.34 KB)

## Sut i ymateb

Dylid cyflwyno ymatebion i’r ymgynghoriad hwn trwy’r arolwg ar-lein (Microsoft forms). Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosib, gallwch ymateb trwy anfon e-bost i:

**E-bost**: RPconsultations@food.gov.uk
**Enw**: Y Tîm Cymeradwyo Cynhyrchion Rheoleiddiedig
**Is-adran/Cangen:** Gwasanaethau Rheoleiddiedig

Os ydych yn ymateb trwy e-bost, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli), ac ym mha wlad rydych wedi’ch lleoli.